| | |
|---|---|
| | gofyn i weld y rhain ar gais, felly sicrhewch fod modd i chi gael gafael ar y dogfennau yma'n hawdd. |
| Adran 3<br><br>Manylion Banc y Sefydliad | Dyma fanylion banc eich sefydliad.<br>Rhaid i chi sicrhau bod y manylion yma'n cyd-fynd â'r dystiolaeth rydych chi'n ei darparu yn eich cais, hynny yw, yr un rhif cyfrif a chod didoli â'ch datganiad banc. |
| Adran 4.a.<br><br>Enw'r Prosiect | Dyma enw'r prosiect rydych chi'n gwneud cais amdano.<br>Mae hwn fel arfer yn wahanol i enw'ch sefydliad. |
| Adran 4.b.<br><br>Ar gyfer beth mae angen yr arian?<br>Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud? | Dyma gynllun eich prosiect.<br><br>4.c.1. Dylech chi ddisgrifio'n glir yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud. Disgrifiwch y gweithgaredd.<br><br>4.c.2. Nodwch yn glir y dyddiadau y byddwch chi'n cynnal y gweithgaredd. *E.e. bydd y prosiect yn cael ei gynnal am 2 awr yr wythnos am 12 wythnos o fis Awst 2023.*<br><br>Yr amserlen ar gyfer y gwariant/gweithgaredd cymwys yw 1 Gorffennaf 2025 – 5 Medi 2025.<br><br>4.c.3 Rhowch amcan o faint o oedolion (18 oed a hŷn) rydych chi'n bwriadu ymgysylltu â nhw.<br><br>4.c.4 Rhowch amcan o faint o blant (0-17 oed) rydych chi'n bwriadu ymgysylltu â nhw. |
| 4.d.<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Cynllun Corfforaethol | Dylech chi adolygu'r blaenoriaethau a rhoi tic wrth ymyl bob un sy'n berthnasol<br><br>I weld copi o'r Cynllun Corfforaethol ewch i www.rctcbc.gov.uk neu cliciwch yma |
| Adran 4.e.<br><br>Newid yn yr Hinsawdd | Mae gan y Cyngor darged uchelgeisiol o fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030. Rydyn ni'n disgwyl i bob un o'n prosiectau ni sy'n cael eu hariannu gan grantiau i fod yn Gyfeillgar i'r Amgylchedd trwy wneud pethau bychain megis ailgylchu, sicrhau bod gweithgareddau yn ddi-blastig a defnyddio adnoddau lleol pan fo'n bosibl.<br><br>Cadarnhewch i barhau.<br><br>*Efallai y byddwn ni'n gofyn i chi sut rydych chi wedi cyfrannu at hyn.* |

